# Canllawiau i Awduron

Cyn cyflwyno erthygl i *Gwerddon*, dylai'r awdur sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r canllawiau a amlinellir yn y ddogfen hon.


1. Y broses gyhoeddi 2
2. Mynediad agored 2
3. Cyflwyno erthygl 3
4. Arddull 4
5. Cyfeirio at ffynonellau 6

## 1. Y broses gyhoeddi

Gellir cyflwyno erthygl drwy ei hanfon i gwybodaeth@gwerddon.cymru.

Os barna'r golygydd bod erthygl yn addas i'w harfarnu, yna trefnir ei bod yn cael ei harfarnu gan ddau arfarnwr annibynnol. Defnyddir dull arfarnu anhysbys fel nad yw'r sawl sydd wedi ysgrifennu'r erthygl yn gwybod pwy yw'r arfarnwyr a *vice versa.*

Cadwa'r golygydd yr hawl i ofyn i'r awdur wneud newidiadau i'r erthygl cyn neu ar ôl i'r erthygl gael ei harfarnu.

Wedi cwblhau'r broses arfarnu, caiff iaith a mynegiant yr erthygl eu golygu. Cadwa'r golygydd yr hawl i ofyn i'r awdur wneud newidiadau pellach yn ystod y broses golygu iaith.

Gofynnir i'r awdur brawf-ddarllen proflen PDF cyn cyhoeddi.

Cymer y broses gyhoeddi rhwng chwe mis a blwyddyn, yn dibynnu ar y nifer o rifynnau sydd mewn llaw.

Derbynnir erthyglau ar sail dealltwriaeth nad ydynt wedi eu cyhoeddi eisoes. Bydd awduron yn gyfrifol am sicrhau caniatâd i atgynhyrchu deunydd sydd o dan hawlfraint. Gofynnir i'r awdur lofnodi a chyflwyno dogfen 'Trwydded i Gyhoeddi' cyn cyhoeddi'r erthygl.

Erys yr hawl i gyhoeddi'r erthyglau a gyhoeddir yn *Gwerddon* gyda'r awdur a Bwrdd Golygyddol *Gwerddon*.

***Gwerddon Fach***: Unwaith y derbynnir yr erthygl i'w chyhoeddi'n derfynol, gwahoddir yr awdur(on) i gyfrannu erthygl fer ar gyfer *Gwerddon Fach*, er mwyn denu sylw ychwanegol at yr erthygl lawn. Gofynnir i'r erthygl hon fod yn ddim hwy na 1,000 o eiriau. Ceir canllawiau ychwanegol ar gyfer hyn ar wefan *Gwerddon*.

## 2. Mynediad agored

Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF), rhaid i erthyglau a gyhoeddir mewn cyfnodolion fod ar gael drwy fynediad agored, a hynny ar gadwrfa'r sefydliad neu gadwrfa bynciol (megis arXiv). Dylai awduron gyfeirio at bolisi adneuo eu sefydliad wrth adneuo eu herthygl.

Yn unol ag amodau Trwydded i Gyhoeddi *Gwerddon* (cymal 3.1), dylid adneuo'r fersiwn PDF terfynol o'r erthygl, gan gynnwys dolen i dudalen yr erthygl ar wefan *Gwerddon*.

## 3. Cyflwyno erthygl

Gellir cyflwyno erthygl drwy ei hanfon i gwybodaeth@gwerddon.cymru.

- Dylai erthygl fod rhwng 5,000–8,000 o eiriau, heb gynnwys cyfeirnodau.
- Dylid cyflwyno erthygl yn electronig ar ffurf MS Word neu LaTeX.
    - Er mwyn cyflwyno erthygl yn LaTeX, dylid defnyddio'r templed sydd i'w gael ar wefan *Gwerddon*. Dylid cyflwyno'r ffeil PDF derfynol yn ogystal â'r ffeiliau eraill perthnasol (e.e. .tex).
- Dylid darparu teitl yr erthygl yn Gymraeg a Saesneg.
- Dylid gosod crynodeb (hyd at 120 gair) Cymraeg a Saesneg o'r erthygl ar ei dechrau.
- Dylid rhifo'r tudalennau a dynodi'r dudalen olaf gydag 'OLAF'.

Dylid rhoi sylw i gywirdeb iaith a mynegiant wrth baratoi erthygl. Gall gormod o wallau a/neu fynegiant gwael arwain at wrthod cyhoeddi erthygl. Dylid defnyddio Cysgliad i wirio iaith, a dylid hefyd ddilyn Canllaw Iaith *Gwerddon*.

**Delweddau**

Dylid ymgorffori unrhyw ddelweddau, tablau, graffiau, mapiau, a.y.b., o fewn yr erthygl. Yn ogystal, dylid eu darparu ar wahân ar ffurf JPEG neu TIFF ansawdd uchel.

**Mae'n rhaid sicrhau bod hawlfraint pob delwedd, tabl, graff, map ayb wedi'i glirio cyn cyflwyno erthygl i Gwerddon. Dylid nodi ffynhonnell y ddelwedd oddi tani.**

**Gwybodaeth atodol**

Mewn dogfen ar wahân, dylid darparu:

- Gwybodaeth am yr awdur(on) (hyd at 100 gair) yn Gymraeg a Saesneg.
- Rhif(au) adnabod ORCID yr awdur(on), os oes un.
- Rhwng 5–10 allweddair fydd yn cynorthwyo peiriant pori i ddod o hyd i'r erthygl. Ni ddylid defnyddio brawddegau ond geiriau neu enwau'n unig.

## 4. Arddull

**Ffontiau**

| | |
|---|---|
| Testun normal | – ffont Times New Roman, maint 12;<br>– bylchau dwbl rhwng llinellau;<br>– un bwlch ar ôl atalnod llawn. |
| Troednodiadau | – ffont Times New Roman, maint 10;<br>– bylchau sengl rhwng llinellau. |
| Teitl | – maint 16, bold |
| Pennawd | – maint 12, bold |
| Is-bennawd | – maint 12, bold + italig |
| Label delwedd, tabl, graff, a.y.b. | – maint 12, bold + italig;<br>– canoli'r label o dan y ddelwedd;<br>– rhifo lluniau gyda 'Ffigwr 1', 'Ffigwr 2'; tablau gyda 'Tabl 1', 'Tabl 2', a.y.b;<br>– os nad yw'r ddelwedd yn waith gwreiddiol yr awdur, dylid nodi'r ffynhonnell a manylion yr hawlfraint yn gryno mewn cromfachau ar ddiwedd y label, a chofnod llawn yn y llyfryddiaeth. |

**Dyfyniadau**

Gellir gosod dyfyniad mewn dau fodd:

1. Yng nghwrs y frawddeg **os yw'r dyfyniad yn llifo'n rhan naturiol ohono**, gan ddefnyddio dyfynodau sengl, e.e.:

   Yn ôl y Ficer Prichard (1579–1644), 'pencadlys y diafol' [troednodyn] oedd Llanymddyfri.

   Disgrifiwyd yr adeilad fel yr 'harddaf yn y ddinas' [troednodyn].

2. **Wedi'i fewnosod** heb ddyfynodau gydag indentiad chwith 1cm ac indentiad dde 1cm. Gellir defnyddio elipsis (...) i ddynodi hepgoriad ond ni ddylid ei ddefnyddio ar ddechrau neu ddiwedd dyfyniad, e.e.:

   Yn yr erthygl, cyfeiria Jones at y 'cyfeiriad newydd' yn echblyg. Meddai:

   > Ein harfer yng nghynhadledd flynyddol yr Adran yw ymdrin â phroblemau athronyddol pur. Ond fe dorrwyd tir newydd eleni drwy roi sylw i Gymru a thrafod cwestiynau athronyddol yn eu hymwneud â hi. [troednodyn]

**Defnyddio geiriau Saesneg (nad ydynt yn ddyfyniad)**

Wrth ddefnyddio geiriau Saesneg o fewn y testun, dylid eu hitaleiddio heb ddyfynodau. Noder, serch hynny, y dylid defnyddio geiriau Cymraeg lle y bo modd.

Mewn achosion lle y gallai'r term Cymraeg fod yn anghyfarwydd ac ystyr y frawddeg yn aneglur o'r herwydd, gellir rhoi'r term Saesneg wedi'i italeiddio mewn cromfachau i ddilyn, e.e. 'Mae nifer o ffilamentau yn ymddangos fel crymion (*sigmoids*).'

**Dyfynnu o destunau Saesneg a ieithoedd tramor**

a) Os dyfynnir o iaith dramor (h.y. unrhyw iaith heblaw'r Gymraeg a'r Saesneg), dylid cynnwys cyfieithiad i'r Gymraeg o dan y dyfyniad gwreiddiol, gan nodi (cyfieithiad yr awdur) neu enw awdur y cyfieithiad os nad yw'n gyfieithiad a ysgrifennwyd gennych chi.

   Yn achos dyfyniadau Saesneg, <u>dylid cynnwys y dyfyniad Saesneg heb ei gyfieithu i'r Gymraeg</u>.

b) Ni ddylid italeiddio dyfyniadau yn y Saesneg na dyfyniadau o destunau mewn ieithoedd tramor.

**Cyffredinol**

***Cyplysnodau:*** dylid defnyddio'r en-dash (cyplysnod hir) i wahanu cymalau sangiadol mewn brawddegau, e.e. 'Cyrhaeddodd y dref – drwy deithio ar y bws – am 11 o'r gloch'. Defnyddir en-dash wrth nodi rhifau tudalennau yn y testun ac yn y llyfryddiaeth, **tt. 4–7**.

***Rhifau:*** wrth nodi ystod rhifau, dylid dilyn y patrwm canlynol: **tt. 20–7**, nid tt. 20–27.

***Dyddiadau:*** dylid dilyn y patrwm canlynol: **16 Medi 1400**. Blynyddoedd CC i'w nodi'n llawn: **536–514**, nid 536–14. Noder 'y bedwaredd ganrif ar bymtheg' yn llawn, ond defnyddier 1800au ac 1930au, nid 'tridegau' neu '30au'.

***Talfyrru/Cywasgu:*** rhoddir atalnod llawn ar ôl rhai talfyriadau: 'ffig.', 'gol.', 'cyf.', 'ibid.', 'y Parch.', ond nid ar gyfer y mwyafrif o gywasgiadau: 'Mr', 'goln', 'Dr'. Nid oes angen atalnod llawn ar gyfer y mwyafrif o acronymau a thalfyriadau eraill – UDA, y DU, MA, MSc, AS, AC, DS, PhD.

Wrth ddefnyddio talfyriad am y tro cyntaf, dylid ychwanegu'r geiriad llawn mewn cromfachau ar ei ôl, e.e. y DU (Y Deyrnas Unedig).

***Priflythrennau:*** 'yr Eglwys' (sefydliad) ond 'yr eglwys' (adeilad); 'y Llywodraeth' (penodol) ond y 'llywodraeth (cyffredinol)'; 'arlywydd yr Unol Daleithiau' ond 'Arlywydd Trump'. Defnyddier llythyren fach ar gyfer 'de Cymru' gan nad oes rhanbarth gwleidyddol, ond Gorllewin Abertawe ar gyfer yr etholaeth seneddol.

## 5. Cyfeirio at ffynonellau

Defnyddier unai'r dull awdur-dyddiad (dull Harvard) neu'r dull teitlau byr, gan lynu'n gyson at un ohonynt.

**1. Y dull awdur-dyddiad (dull Harvard) yn y testun**

Dylid rhoi'r cyfeiriadau yn y testun yn y ffurf ganlynol:

(Lewis 2003: t. 67)

Wrth gyfeirio at fwy nag un awdur, defnyddier 'et al.' ar ôl yr awdur cyntaf:

(Hornung et al., 1990: tt. 59–60)

Dylid rhestru pob ffynhonnell y cyfeirir atynt yn y testun mewn llyfryddiaeth ar ddiwedd yr erthygl, gan ddilyn y canllaw arddull ar dudalen 7. Dylid rhestru'r ffynonellau yn nhrefn yr wyddor yn ôl cyfenwau'r awduron.

**2. Y dull teitlau byr yn y testun**

Dylid defnyddio troednodiadau, nid ôl-nodiadau, gan gyfeirio'n llawn at bob ffynhonnell pan grybwyllir hi am y tro cyntaf.

Defnyddier y canllaw arddull ar dudalen 7 i gyfeirio at ffynonellau am y tro cyntaf, gan nodi rhif tudalen(nau) lle bo angen, e.e.

Lewis, D. G. (2003), *Y Llyfr Berfau*, 4ydd argraffiad (Llandysul: Gwasg Gomer), tt. 67–8.

Defnyddir (ibid.) os yw'r cyfeiriad yr un fath â'r cyfeiriad blaenorol. Os yw'r rhif tudalen yn wahanol, dylid nodi hynny, e.e. (ibid., t. 56).

Wrth gyfeirio at ffynonellau am yr eildro a phob tro wedi hynny, noder cyfenw'r awdur a theitl byr yn unig:

Lewis, *Y Llyfr Berfau*, t. 67.

Hornung et al., 'The role of geology and soils', tt. 59–60.

QCA, *Research into Marking Quality*, t. 70.

**Llyfryddiaeth / troednodiadau**

Dilyner yr arddull ganlynol wrth lunio llyfryddiaeth (dull awdur-dyddiad) neu wrth gyfeirio at ffynhonnell am y tro cyntaf (dull teitlau byr):

| | |
|---|---|
| Lewis, D. G. (2003), *Y Llyfr Berfau*, 4ydd argraffiad (Llandysul: Gwasg Gomer). | Cyfrol |
| Badsey, S. (2002), 'The Great War Since The Great War', *Historical Journal of Film, Radio and Television*, 22 (1), 1 Mawrth, 37–45. | Erthygl mewn cyfnodolyn |
| Thomas, M. Wynn, 'Dirgel Ddyn: Mihangel Morgan', yn Wiliams, Gerwyn (gol.), *Rhyddid y Nofel* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), tt. 305–15. | Erthygl mewn cyfrol a olygwyd |
| Lewis, H. (2003), 'Tlodi plant ar gynnydd', *Y Cymro*, 30 Mawrth, t. 3. | Erthygl bapur newydd |
| Griffiths, E. A., 'Delwedd y teulu yn y nofel Gymraeg o 1900–1945', traethawd PhD, Prifysgol Aberystwyth, Aberystwyth, 2012. | Traethawd ymchwil |
| Qualifications and Curriculum Authority (2009), *Research into Marking Quality: Studies to Inform Future Work on National Curriculum Assessments* (London: QCA). | Adroddiad (dim awdur) |
| *Adroddiad Comisiwn Richard* (2004), <http://www.comisiwnrichard.gov.uk/content/finalreport/report-w.pdf> [Cyrchwyd: 20 Chwefror 2013]. | Adroddiad ar y we (dim awdur) |
| Collins, S. (2015), *Yr etholiad ar-lein: Faint o Gymraeg?* <http://www.bbc.co.uk/cymrufyw/32656589> [Cyrchwyd: 1 Gorffennaf 2015]. | Tudalen we |

Noder:

- Os oes mwy na thri awdur, defnyddier 'et al.' ar ôl enw'r awdur cyntaf:

  Hornung, M., et al. (1990), 'The role of geology and soils in controlling water acidity in Wales', yn Edwards, R. W., Gee, A. S., a Stoner, J. H. (goln), *Acid Waters in Wales* (Dordrecht: Kluwer Academic Publishers), tt. 55–66.

- Wrth gyfeirio at gyfnodolion, ni ddylid cynnwys t./tt. cyn rhifau tudalennau.
- Wrth gyfeirio at adroddiad Saesneg, ni ddylid cyfieithu enw'r sefydliad i'r Gymraeg.
- Gellir ychwanegu cyfeirnod DOI wrth gyfeirio at erthyglau sydd i'w cael ar y we yn unig.